

**ADRODDIAD GAN Y  
PWYLLGOR DEDDFAU****LEGISLATION COMMITTEE  
REPORT****The Seed (Registration, Licensing and Enforcement) (Wales) Regulations  
2005**

Mae'r Rheoliadau yma'n gwneud darpariaeth ar gyfer cofrestru cwmnïau hadau, trwyddedu personél y diwydiant hadau i archwilio cynydau a samplu hadau, trwyddedu gorsafoedd profi hadau a gorfodi'r rheoliadau ynglyn â hadau.

**Rheol Sefydlog 11.7**

Mae'r pwyntiau canlynol wedi'u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae'r mân wallau drafftio canlynol wedi'u nodi o dan Reol Sefydlog 11.7(v); maen nhw'n addas i'w cywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

- Mae rheoliad 2(1) yn nodi amryw byd o dermau sydd wedi'u diffinio. Diffinnir y term "analyst in charge" drwy gyfeirio at reoliad 27(1) ac mae angen ei ddiwygio i ddarllen "Analyst in Charge" er mwyn cyd-fynd â'r derminoleg yn rheoliad 27(1).
- Mae'r diffiniad o "seed industry activity" yn cynnwys, ym mharagraff (a)(i) a (b), "small EC A packages of seed, or small EC B packages of seed" gan fynd ymlaen i ddatgan bod y termau hyn wedi'u diffinio yn y gwahanol Reoliadau Marchnata Hadau (hynny yw Beet Seed (Wales))

Regulations 2005, Cereal Seed (Wales) Regulations 2005, Fodder Plant Seed (Wales) Regulations 2005 ac Oil and Fibre Plant Seed (Wales) Regulations 2004). Er bod y Rheoliadau Marchnata Hadau'n cynnwys cyfeiriadau at y mathau eraill o becynnau y cyfeirir atyn nhw ym mharagraff (a)(i), hynny yw "small packages of seed" a "small EC packages of seed" does dim cyfeiriad yno at "small EC A packages of seed or small EC B packages of seed" a dylai'r cyfeiriadau hyn gael eu dileu. Mae angen diwygiad tebyg ym mharagraff (B) o'r diffiniad o "seed industry activity".

- Mae rheoliad 42(1) yn dirymu Seeds (Registration, Licensing and Enforcement) Regulations 1985 a Seeds (Fees) Regulations 1985 "as respects Wales". Y derminoleg arferol sy'n cael ei defnyddio mewn darpariaethau o'r fath yw "in relation to Wales" a dyna a ddylai gael ei defnyddio yn lle'r geiriau sydd wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau.
- Mae Rhan II o Atodlen 2 yn nodi'r swyddogaethau y caniateir eu pennu yn nhrwydded arolygydd cnydau. Ar ddiwedd paragraff 2(d)(ii) ceir brawddeg newydd "To issue a field inspection report following the inspection of a seed crop in accordance with Seed Marketing Regulations". Dylai hyn fod yn baragraff ac iddo'r rhif 3.
- Atodlen 6 ac Atodlen 7 Rhannau 1 i V: Mae'r Atodlenni hyn yn nodi ffurf tystysgrifau a ragnodir gan reoliad 33. Ym mhob achos dylai cyfeiriad at Gynulliad Cenedlaethol Cymru gael ei roi yn lle'r cyfeiriad at Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig sydd i'w weld ym mhennawd y ffurflenni.

O dan Reol Sefydlog 11.7(viii), tynnir sylw arbennig at y ffaith bod y Rheoliadau yma wedi'u gwneud yn uniaith Saesneg. Mae adran 66 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 yn ei gwneud yn ofynnol bod Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn cynnwys darpariaeth i sicrhau mai dim ond os yw'r drafft yn Gymraeg ac yn Saesneg y caniateir i'r Cynulliad gymeradwyo drafft o'r offeryn statudol sy'n cynnwys unrhyw eitem o is-ddeddfwriaeth gyffredinol y Cynulliad oni bai ei bod, o dan yr amgylchiadau penodol, yn amhriodol neu heb fod yn rhesymol ymarferol i'r drafft fod yn ddwyieithog. Mae'r gofyniad yma wedi'i adlewyrchu yn Rheol Sefydlog 24.2.

Deallir bod y Gweinidog o'r farn ei bod yn amhriodol paratoi drafft dwyieithog am resymau sy'n cynnwys cymhlethdod y Rheoliadau a'r ffaith eu bod wedi'u hanelu'n bennaf at y diwydiant hadau bach yn hytrach nag at y cyhoedd yn gyffredinol neu gyrff gwirfoddol.

O dan yr amgylchiadau, bernir bod yr esboniad yn dderbyniol ac nad oes angen cymryd dim camau pellach.

## **Sylwadau**

Mae mân bwyntiau fformadu, sy'n addas i'w cywiro wrth gyhoeddi'r Rheoliadau, wedi'u mynegi i'r cyfreithiwr a'u drafftiodd.

**Glyn Davies AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**18 Hydref 2005**